**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)**
**(A5026 FFORDD HOLWAY A A5026 STRYD CHITFFORDD, TREFFYNNON)**
**(FFYRDD CYFYNGEDIG A 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 03) 202-**

**DATGANIAD O’R RHESYMAU DROS GYNNIG I WNEUD Y GORCHYMYN**

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch sylweddol (mae’r Terfyn Cyflymder 20 mya yn ffurfio rhan ohonynt) er mwyn mynd i’r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen ar hyd y llwybrau i Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol St Winefrides.

Mae nifer o’r problemau a nodwyd ar hyd y llwybrau yn ymwneud â lefelau uchel o gerbydau’n cael eu defnyddio a thagfeydd cysylltiedig yn yr ardaloedd yn agos at yr ysgol ac ar hyd nifer o lwybrau i’r ysgol.

Bydd gweithredu terfyn cyflymder gorfodol Ffyrdd Cyfyngedig yr awr arfaethedig ar hyd terfyn y cynllun arfaethedig yn ymdrin â phroblemau goryrru a hefyd sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol i hyrwyddo defnydd o ddulliau teithio llesol trwy’r cysyniad o rannu gofod.

Bydd gostwng y terfyn cyflymder yn ymdrin â phroblemau goryrru a bydd yn gwella diogelwch i gerddwyr a defnyddwyr ffyrdd sy’n agored i niwed, a lleihau tagfeydd a gwella llif y traffig. Bydd lleihau’r tagfeydd o fudd i ddiogelwch y plant sy’n teithio i'r ysgol ac yn ôl adref a bydd hefyd yn gwella ansawdd yr aer ac ansawdd bywyd trigolion lleol.

Ffyrdd Cyfyngedig (20mya)yn rhan hanfodol o’r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae mesurau eraill o’r fath yn cynnwys cyfleusterau croesi newydd a gwell darpariaethau cerdded a beicio.

Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener, 08 Mawrth 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF